6. Trwyn Larnog

Penarth, Bro Morgannwg

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 151 yr A.O. Prif fynedfa: ST 181681; Canolfan y safle: ST 182682
Statws	Mae SoDdGA Trwyn Larnog yn cymryd dwy ran o dair o'r safle.
Daliadaeth	Yn cael ei rheoli dan drwydded ers mis Ionawr 1966, ac yn cael ei dal dan brydles 25 mlynedd ers mis Mehefin 1999.
Maint	8 he (20 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	8 km i'r de o Gaerdydd a 6km i'r dwyrain o'r Barri. Ceir mynediad i'r safle o'r B4267, drwy gyfrwng Heol y Gaer, sy'n dangos arwyddion am Drwyn Larnog. Gofod parcio prin wrth y giât neu yn y maes parcio cyhoeddus ym mhen draw Heol y Gaer. Ceir llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau caniataol yn y warchodfa, yn cynnwys sawl camfa, ond ceir mynediad drwy giât mochyn ryw 100 llath y tu hwnt i'r giât. Mae rhai llwybrau ar ben y clogwyni'n cael eu herydu.
Cludiant cyhoeddus	Gwasanaethau bws 88 a 94 o Gaerdydd, Penarth a'r Barri.

Disgrifiad: Mae Larnog yn cynnwys nifer o gynefinoedd, yn bennaf, glaswelltir a llwyni calchfaen arfordirol Jurasig. Mae'r Prysgwydd Derw i'r gogledd o Heol y Gaer yn gartref i löyn byw y Brithribin Porffor. Cafodd yr Hen Gae Gwair i'r de o Heol y Gaer ei dorri ar gyfer gwair ddiwethaf yn 1984 ac mae rhywogaethau dôl wedi ailgartrefu yma erbyn hyn. Mae Dolydd y Gogledd a'r De wedi'u gwahanu gan rimyn o brysgwydd sy'n cynnwys Magnelfa o'r Ail Ryfel Byd, Cofadail Hynafol Rhestredig bellach. Mae prysgwydd wedi ymledu yn y ddwy ddôl dros y blynyddoedd ac, mewn mannau, maent wedi ildio'u lle i goed Ynn.

Ymhlith blodau niferus y dolydd mae briallu Mair sawrus (4-5) a sawl tegeirian: Tegeirian Porffor y Gwanwyn (4-6), y Tegeirian Gwenynog (6-7), y Tegeirian Brith (6-8) a'r Ddwyddalen (5-8). Ymhlith y planhigion eraill sy'n amlwg yma yn eu tymor mae'r Ganrhi Goch (6-10), Melynllys (8-9), Banadl Aur (7-9), Cedorwydd (8-9) a Bara'r Cythraul (6-10). Ar y cyfan, mae rhyw 170 o rywogaethau wedi'u rhestru yma, yn cynnwys Rhedyn Tafod y Neidr.

Gwelir y glöynnod byw a'r gwyfynnod ar y ddôl yn bennaf, er bod Brith y Coed i'w ganfod yn y Coed. Ceir llawer o löynnod Gwynion, Gleision a Llwydion yma, yn cynnwys yr Iâr Fach Fodrwyog (6-8), Llwyd y Ddôl (6-9) a'r Porthor (7-8). Gwelir yr Iâr Fach Amryliw, y Paun, yr Adain Garpiog, Y Fantell Goch a Glöyn yr Ysgall yma yn ystod yr haf. Y gwyfyn mwyaf cyffredin a welir yn hedfan yma yn ystod y dydd yw'r Bwrned Chwe Smotyn a'r glöyn byw mudol mwyaf cyffredin, y Fforch Arian.

Yn hanesyddol, mae Larnog wedi bod yn safle pwysig ar gyfer arsylwi adar mudol. Yn ystod yr hydref, mae heidiau mawr o Wenoliaid, y Coch Dan-aden, y Socan Eira a Phincod i'w gweld yma. Ymhlith yr adar magu mae'r Llwydfron, y Llwydfron Bach, Coch y Berllan a'r Siff-Saff. Gellir gweld y Gwalch Glas, y Gnocell Werdd a'r Titw Cynffon Hir yma drwy gydol y flwyddyn.

Lavernock point 1 11/5/06, 11:11 am



Nodau Rheoli: Adfer, rheoli ac ymestyn y glaswelltir calchfaen, gan roi sylw arbennig i'r planhigion blodeuog llai cyffredin. Gwella'r amrywiaeth strwythurol drwy greu clytwaith o lwyni a choetiroedd o amgylch y glaswelltir, a thocio rhai rhannau o'r coetir. Gobeithir cyflwyno anifeiliaid pori i'r Cae Gwair a'r ardal wedi'i ffensio yn Nôl y Gogledd.

Amser da i ymweld	
Mawrth – Mai	Adar mudol y gwanwyn
Ebrill – Gorffennaf	Adar yn magu
Ebrill – Awst	Blodau, glöynnod byw a phryfed eraill
Awst – Hydref	Adar mudol yr hydref